



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf Morgannwg
University Health Board

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn lansio “Prentisiaethau Traddodiadol!”

I ddathlu Wythnos Genedlaethol Prentisiaethau a gynhaliwyd rhwng 7-13 Chwefror 2022, roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn falch iawn o gyhoeddi lansiad “prentisiaethau traddodiadol”.

Mae Rhian Lewis, sy'n Bartner Busnes Dysgu a Datblygu ar gyfer Cymwysterau o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, yn gweithio'n frwd i ddatblygu cyfleoedd prentisiaeth yn y bwrdd iechyd drwy weld sut y gall swyddi gwag gael eu cefnogi gan gymwysterau ac yna eu cynnig drwy rôl prentisiaeth.

Wrth siarad am brentisiaethau, dywedodd Rhian: “Dim ond un o nifer o ddulliau recriwtio a datblygu strategol yw prentisiaethau i ddenu, cadw a datblygu ein gweithlu i ddiwallu anghenion gweithlu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae prentisiaethau yn hanfodol wrth ddarparu cyfleoedd i weithwyr newydd a phresennol, o bob oed, i ddatblygu'r sgiliau cywir sydd eu hangen i ddiwallu ein hanghenion sgiliau nawr ac yn y dyfodol.”

Parhaodd Rhian: “mae prentisiaethau'n darparu'r gweithwyr medrus sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol. Mae prentisiaid yn gweithio ochr yn ochr â gweithwyr profiadol i ennill sgiliau yn y gwaith, tra'n cael hyfforddiant allanol gan goleg neu ddarparwr hyfforddiant cymeradwy. Bydd prentisiaid yn ennill cyflog wrth ddysgu ac yn gweithio tuag at gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol.”

I gael rhagor o wybodaeth am y cyfleoedd diweddaraf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ewch i'r gwefan: <https://bipctm.gig.cymru/> neu dilynwch y tudalennau Facebook/Twitter @CwmTafMorgannwg.

I chwilio am y prentisiaethau diweddaraf ar draws GIG Cymru ewch i wefan Swyddi GIG: www.jobs.nhs.uk.

